lgps | Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund



# Ymddeoliad Hyblyg

## Ebrill 2025

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Contents

Cyflwyniad .......... 2
Beth yw Ymddeoliad Hyblyg? .......... 2
Beth yw'r meini prawf ar gyfer Ymddeoliad Hyblyg? .......... 2
Beth yw ystyr Caniatâd Cyflogwr? .......... 2
Pa fuddion fydd yn daladwy os cymeraf Ymddeoliad Hyblyg? .......... 2
A fydd fy mhensiwn yn cael ei leihau os byddaf yn ymddeol cyn yr Oedran Pensiwn Arferol (OPA)? .......... 3
A fyddaf dal yn gallu cyfrannu at y Cynllun? .......... 3
Nodwch .......... 4
Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth? .......... 4
Ymwadiad .......... 4

## Cyflwyniad

Gall ymddeol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fod yn gam mawr a gall fod yn anodd gwybod a ydych chi'n barod i ymddeol. Mae ymddeoliad hyblyg yn rhoi'r opsiwn i chi symud yn raddol i ymddeoliad trwy leihau eich oriau neu symud i raddfa cyflog is.

## Beth yw Ymddeoliad Hyblyg?

Gyda chytundeb eich Cyflogwr, gallwch chi gymryd y buddion pensiwn rydych chi wedi eu cronni hyd yma, a pharhau i weithio i'r un Cyflogwr, ond gan weithio llai o oriau neu ar raddfa cyflog is.

## Beth yw'r meini prawf ar gyfer Ymddeoliad Hyblyg?

Gallwch ond wneud cais am Ymddeoliad Hyblyg os ydych:

- Yn 55 oed neu'n hŷn.
- Wedi bod yn aelod o’r cynllun ers dwy flynedd neu wedi trosglwyddo buddion pensiwn i mewn o gynllun arall. Os gwnaethoch ymuno â'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, dim ond 3 mis o aelodaeth sydd ei angen arnoch i fod yn gymwys.
- Wedi cael **caniatâd eich Cyflogwr** i leihau eich oriau gwaith neu raddfa ac ymddeol o dan reolau ymddeoliad hyblyg.

## Beth yw ystyr Caniatâd Cyflogwr?

Mae rheoliadau'r cynllun yn nodi y dylai fod gan bob Cyflogwr bolisi sy'n cadarnhau a fyddant yn ystyried ceisiadau am Ymddeoliad Hyblyg. Mae’n rhaid i'r Cyflogwr ystyried pob cais a’r effaith ar gyflenwi gwasanaethau ac unrhyw gostau posibl, cyn gwneud penderfyniad. I ganfod mwy am eu polisi, cysylltwch â'ch Cyflogwr.

## Pa fuddion fydd yn daladwy os cymeraf Ymddeoliad Hyblyg?

- Byddwch yn derbyn eich pensiwn blynyddol; ac
- Mae gennych yr opsiwn i gyfnewid rhan o'ch pensiwn am lwmp swm di-dreth (gelwir y broses hon yn Cymudiad).

Os daethoch yn aelod o'r CPLlL ar neu cyn 31 Mawrth 2008, byddai gennych hawl i lwmp swm awtomatig di-dreth fel rhan o'r buddion y gwnaethoch eu cronni hyd at y dyddiad hwn.

I ddarganfod mwy am eich opsiynau ar ôl ymddeol, cyfeiriwch at y daflen ffeithlen **Cymudiad**.

## A fydd fy mhensiwn yn cael ei leihau os byddaf yn ymddeol cyn yr Oedran Pensiwn Arferol (OPA)?

Mae eich OPA o dan y Cynllun yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gydag isafswm oedran o 65. Fodd bynnag, y cynharaf y gallwch ymddeol yw 55 oed. Os cytunwch i'ch buddion gael eu talu i chi cyn eich OPA, bydd yna ostyngiad i gymryd i ystyriaeth fod eich pensiwn yn cael ei dalu'n gynnar.

Fodd bynnag, os gwnaethoch ymuno â'r Cynllun ar 30 Medi 2006 neu cyn hynny a chael Ymddeol yn Hyblyg rhwng 55 a 60 mlwydd oed, cewch eich diogelu gan y **Rheol 85 Mlynedd**. Mae hyn yn golygu **na fydd** y buddion rydych wedi eu cronni cyn 01 Ebrill 2008 yn cael eu gostwng oherwydd y taliad cynnar.

Os gwnaethoch ymuno â'r Cynllun ar 1 Hydref 2006 neu wedi hynny, **ni fydd** y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol, a chaiff eich buddion eu lleihau am eu bod yn cael eu talu'n gynnar. Fodd bynnag, yr agosaf ydych chi at eich OPA pan fyddwch yn ymddeol, yr isaf fydd y gostyngiad i'ch buddion.

Mae gan eich Cyflogwr y disgresiwn i benderfynu p'un a fydd yn cymhwyso'r Rheol 85 Mlynedd rhwng 55 a 60 oed. Bydd angen i chi gysylltu â nhw i ganfod eu polisi ar y mater hwn.

Os hoffech ddarganfod mwy am y Rheol 85 Mlynedd a'r gostyngiadau a allai fod yn berthnasol, cyfeiriwch at y ffeithlen **Rheol 85 Mlynedd.**

## A fyddaf dal yn gallu cyfrannu at y Cynllun?

Unwaith y byddwch wedi hawlio eich buddion ymddeol, cewch ail-ymuno â'r CPLlL a dechrau adeiladu buddion pensiwn pellach.

Fodd bynnag, pe bai'r Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol i'ch cyfnod aelodaeth gyfredol, **ni** fydd yn berthnasol i unrhyw fuddion pensiwn newydd y byddwch yn eu cronni yn y dyfodol.

## Nodwch

Os bydd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn newid yn y dyfodol, cofiwch y bydd eich OPA yn y CPLlL hefyd yn newid.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Ymwadiad

Ni all y Gronfa Bensiwn ddarparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech ofyn am gyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/ Gwasanaeth Cyngor Arian: https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/choosing-a-financialadviser